
Hâf 1999
Rhifyn 20

# heddwch

Am ddim (neu gyfraniad)

## cylchgrawn CND Cymru




## Y tu fewn:

**CND Cymru'n croesawu'r Cynulliad Cenedlaethol**
**Yr Athro Ken Booth yn sgrifennu am gamgymeriadau trasig NATO yn y Balcanau**
**Newyddion a phrotestiadau Trident ★ Trawsfynydd**
**Torri sancsiynau ★ Gwastraff Niwclear a mwy**

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

# Y Cynulliad Cenedlaethol - cyfle am heddwch a chyfiawnder?

*"Ymgorfforï gwerthoedd cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb sydd wedi symbylu pobl Cymru ar hyd yr oesoedd"*
(Ron Davies, cyn-Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Ionawr 1999)

Rydyn ni sy'n ymgyrchu dros heddwch, cyfiawnder a'r amgylchedd yn gwybod na sicrheir newid parhaol er gwell nes i ni herio'r sefydliadau a'r gwerthoedd sy'n gwneud rhyfel, anghyfiawnder, a difrodi ac ecsploetio'r amgylchedd yn dderbyniol. Y cwestiwn sy'n wynebu gweithredwyr ar y strydoedd yn aml yw "rydyn ni'n cytuno â chi - ond beth all neb ei wneud am y peth?" Efallai y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gam ymlaen o safbwynt llywodraeth fwy agored a mwy atebol i'r cyhoedd sydd ei hangen ar gyfer y fath her.




## Llefaru dros bobl Cymru

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol yr hawl, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, i ystyried "unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru". Mae pob bod dynol a phob cenedl yn gyd-ddibynnol, yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn wleidyddol. Byddai'n dra pheryglus i ni anwybyddu ein cyd-gysylltiad â'r ddaear a'i bywyd. Bydd Cymru yn effeithio ar yr amgylchedd, pryderon byd-eang a materion rhyngwladol, a fydd, yn eu tro, yn effeithio arni hithau. Yn yr un modd ag y pasiodd Cyngor Gwynedd benderfyniad ym mis Mai yn galw am atal bomio Iwgoslafia, gallai'r Cynulliad yntau deimlo ei fod am fynegi teimladau'r bobl ar sail ddyngarol neu foesol, a dylid ei annog i wneud hynny. Yn y gorffennol, gwadwyd llais i Gymru i fynegi ein hanghytundeb neu'n dicter neilltuol ni. Dyma gyfle y dylem fanteisio i'r eithaf arno.

## Gobaith

Mae'r rheini a etholwyd gennym i'r Cynulliad yno i weinyddu ewyllys pobl Cymru, nid dymuniadau a dyheadau unrhyw blaid wleidyddol, busnes, banc neu eu buddiannau pwer eu hunain. O safbwynt CND Cymru, bydd y Cynulliad yn golygu mwy o le i ddylanwadu ar benderfyniadau am heddwch, yr amgylchedd a diarfogi niwclear. Mae'r Cynulliad mewn safle i atgyfnerthu diwylliant di-drais, cyfranogol a chydweithredol.

## Cyfleoedd ymgyrchu

Bydd y Cynulliad yn cynnig cyfleoedd ymgyrchu i CND Cymru ym meysydd cynaliadwyedd amgylcheddol, cynllunio, cludiant, economeg, masnachu ac addysg. Mae'r rhain oll yn bynciau o bwys i'r rheini ohonom sy'n ymgyrchu dros heddwch a byd di-niwclear. Gobaith CND Cymru yw y bydd i'r Cynulliad fel corff gymeradwyo'r weledigaeth o Gymru Ddi-niwclear. Efallai mai Cymru yw'r wlad gyntaf mewn hanes i fod â "datblygu cynaliadwy" yn rhan ffurfiol o'r cyfansoddiad a'i sefydlodd. Rhaid i hynny olygu terfyn ar unrhyw gynlluniau niwclear ar gyfer Cymru yn y dyfodol, gan na ellid byth ystyried unrhyw dechnoleg niwclear sifil neu filwrol yn amgylcheddol gynaliadwy.

### Cynllunio:

Bydd y Cynulliad yn rhoi mynediad i ni i drafodaethau a phenderfyniadau mewn meysydd fel cynllunio ar gyfer dadgomisiynu gorsafoedd niwclear, difa gwastraff, ac ati.

**Cludiant:**
Cludo defnyddiau niwclear ar fôr, tir ac awyr, llongau tanfor yn cario (arfau niwclear) Trident a rhai "hela a lladd" yn rhedeg ar ynni niwclear ym Môr Iwerddon ac yn yr angorfeydd Z yng Nghaerdydd.


**Economaidd:**
Trafodaethau ar gynhyrchu a masnachu arfau, gwastraff niwclear, a materion yn ymwneud â thechnoleg niwclear.

**Iechyd:**
Effeithio radio-niwclidau o waith llaw dyn, llygredd ymbelydrol ym Môr Iwerddon, ac awyrennau rhyfel sy'n hedfan yn isel ar iechyd meddyliol a chorfforol.

**Addysg:**
Maes llafur i ysgolion Cymru sy'n rhoi lle dyledus i addysg heddwch, materion rhyngwladol a "datblygu", hawliau dynol, Degawd Heddwch a Dulliau Di-drais y CU, ac addysgu i fod yn ddinasyddion.

### Cymru-gweithio dros Heddwch a Chyfiawnder i Bawb!

Mae clawr y rhifyn hwn wedi ei seilio ar boster a gyflwynwyd i bob aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol wrth iddynt fynd iddo am y tro cyntaf ym mis Mai. Fe'i dyluniwyd gan Wendy Lewis gyda chymorth hollbwysig gan Tad Davies (6 oed). Mae mewn lliw llawn, mae'n hardd dros ben, ac rydych yn lwcus oherwydd gellwch brynu'r eitem casglydd a'r gwaith celf yma gan CND Cymru am £2.00 (£2.75 yn cynnwys cludiant).




## Adeg dyngedfennol

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnig cyfle i ni i greu'r Gymru a'r byd rydym yn breuddwydio amdanynt. Rhaid ateb gofynion sylfaenol am fwyd, lloches, dillad, gofal meddygol, addysg, heddwch ac urddas cymdeithasol nid yn unig yng Nghymru ond ledled y byd. Os na allwn ddal ar y cyfle tyngedfennol hwn i gefnu ar hunan-ddinistr a throi thuag at gyfnod newydd o dwf a lles dynol lle gall pobl wireddu eu posibiliadau, mae'n ddigon posib y byddwn wedi methu'r cyfle olaf i sicrhau dyfodol ein plant.


*Jill Stallard*

**heddweithredu:** Mae CND Cymru yn gweithio beunydd i ddylanwadu ar Aelodau'r Cynulliad. Os hoffech chi gymryd rhan, a cheisio dylanwadu ar eich aelodau Cynulliad eich hun, cysyllter â Jill Stallard (gweler cysylltiadau).Mae CND Cymru yn aelod o Cynefin y Werin, rhwydwaith cenedlaethol Cymru sy'n hyrwyddo heddwch rhyngwladol, cyfiawnder cymdeithasol, hawliau dynol a chydraddoldeb. Mae Cynefin y Werin yn canolbwyntio ar ffyrdd o ddylanwadu ar y Cynulliad i gynnwys Agenda Ryngwladol yn ei waith. Mwy o wybodaeth am Cynefin y Werin gan Richard Jones, Y Deml Heddwch (01222) 228549.

# Newyddion Trident

### Cyfanswm o 200 wedi eu restio yn ymgyrch Trident Ploughshares

Ym mis Mai, restiwyd 16 o weithredwyr am rwystro clwydi gorsaf y llynges yn Faslane, torri'r ffens o gwmpas yr orsaf, a'u clymu eu hunain wrthi. Restiwyd un am dorri ei ffordd i mewn i ganolfan Coulport. Digwyddodd y gweithredoedd hyn ar ôl gwrthdystiad wrth y glwyd ogleddol gan ddeugain o bobl, yn cynnwys ymgeisydd Plaid Genedlaethol yr Alban (SNP), yr Athro Neil MacCormick, a ddwedodd "Mae'r canolfannau hyn yn berygl i bobl mewn gwledydd pellennig ac i'r Alban. Ni chrewyd y bryniau a'r llynnoedd hyn i gartrefu arfau lladd a chlwyfo torfol. Dyw'r Alban ddim eisiau arfau niwclear." Meddai Joan Meredith, cyn-athrawes pobl fyddar 69 oed o Northumberland, a restiwyd am rwystro'r glwyd ddeheuol, "Mae hwn wedi bod yn ddiwrnod da. Mae gweld cymaint o bobl sy'n fodlon eu haberthu eu hunain am yr hyn sy'n iawn yn fy llenwi i â gobaith." Daeth y nifer a restiwyd ar y diwrnod hwnnw â chyfanswm y gweithredwyr Trident Ploughshares 2000 a restiwyd i 200, gyda llawer o achosion llys i ddod, a dwy apêl i'r Uchel Lys.



### Gweithredwyr Ploughshares o Sweden ger bron llys

Ar ôl 8 diwrnod o achos yn Preston, methodd rheithgor gytuno ar ddedfryd drwy fwyafrif ar yr achos o "gynllwyn i achosi niwed troseddol" i'r llong danfor Trident yn cludo arfau niwclear yn Barrow fis Medi diwethaf. Ger bron y llys, cyfaddefodd tri gweithredydd o Sweden eu bod wedi ceisio atal trosedd o dan gyfraith ryngwladol drwy geisio niweidio'r cledrau (y bwriedid rholio'r llong danfor Trident Vengeance allan arnynt y diwrnod canlynol) a pharhau i geisio niweidio'r llong danfor ei hun.

Yn ystod yr achos, dwedodd un amddiffynydd, Ann Brit Sternfeldt "Yn yr un modd ag y defnyddir gwn wedi ei lwytho mewn lladrad banc, does dim rhaid i'r arf niwclear gael ei danio er mwyn ei ddefnyddio'n effeithiol mewn lladrad systematig." Siaradodd twrnai'r amddiffyniad, Elizabeth Baird, yn groyw am beth oedd dan sylw: "Os caiff arf niwclear ei danio, gan ladd miloedd o filwyr a dinasyddion cyffredin, dwi ddim am deimlo'n gyfrifol am hynny. A ddylid gwneud rhywbeth ynglyn â hynny nawr? Byddwn yn ein cysuro ein hunain drwy feddwl efallai na ddigwyddith y fath beth. Yr hyn sydd ei angen i ddrygioni fod yn drech yw i bobl dda wneud dim byd."

Mae'r tri nôl yn Sweden yn disgwyl ail achos ar Awst 11eg yn Llys y Goron, Preston.

**heddweithredu:** Croesewir pob cynnig o gymorth o unrhyw fath, am wybodaeth, cysylltwch ag Eileen Laing (0151) 260 8533.

### Eglwys yr Alban yn annog y llywodraeth i ddileu Trident

Ar y 12fed Mai, cariwyd cynnig yng Nghynulliad Cyffredinol Eglwys yr Alban yn galw ar y llywodraeth Lafur i roi'r gorau i'w pholisi amddiffyn niwclear. Meddai John Ainslie o CND yr Alban, oedd wrth ei fodd â'r newyddion, "Mae'r cynnig hwn yn adlewyrchu barn y mwyafrif helaeth yn yr Alban sy'n gwrthwynebu Trident. Does ond gobeithio y bydd ein Senedd newydd yn ddigon dewr i ddilyn enghraifft yr Eglwys."

CND Yr Alban (0141) 423 1222

### Trident yn hwylio ar ddiwrnod yr etholiad

Hwyliodd y bedwaredd long-danfor niwclear Trident, o Coulport ar Fai'r 6ed, diwrnod etholiadau Senedd yr Alban. Aed â hi yn llechwraidd i lanfa dan-do ar Loch Long yn y lle cyntaf, mewn ymgais ofer i guddio'r llong rhag y cyfryngau a phrotestwyr. Deëllir ei bod bellach wrthi'n gwneud ei phrofion môr yn Swnt Jura. Wrth sgrifennu hyn, mae'r llong danfor yn dal heb ymddangos am y tro cyntaf yng nghanolfan niwclear Faslane.Yn ystod y profion diogelwch, methodd offer ar Vengeance sydd yno i atal toddiad niwclear rhag digwydd yn yr adweithydd. Roedd y nam yn nau o bympiau oeri'r adweithydd, sydd yno i atal y gwres a gynhyrchir gan ymhollti niwclear rhag toddi'r elfennau tanwydd a pheri i'r pwysedd gynyddu'n aruthrol ac ymbelydredd rhag gollwng. Codwyd y mater yn Nhy'r Cyffredin gan Winifred Ewing, AS yr SNP.

---

### Enillydd Gwobr Heddwch Nobel yn Derbyn Poster Cynulliad CND Cymru

Bu Oscar Arias, cyn-arlywydd Costa Rica ac Enillydd Gwobr Heddwch Nobel, yn annerch cyfarfod Canolfan Cymru dros Faterion Rhyngwladol yn ddiweddar, yn y Deml Heddwch, Caerdydd. Wedi'r cyfarfod, cyflwynodd Ysgrifennydd Cyffredinol CND Cymru, Jill Stallard, gopi o'r poster yn dathlu agor Cynulliad Cymru i Mr Arias.

Does gan Costa Rica ddim byddin, a hi oedd y genedl gyntaf yn y byd i ddileu ei sefydliadau milwrol, er gwaetha'r annhrefn yn Nghanolbarth America ers deugain mlynedd. Galwodd Oscar Arias arnom oll i newid ein gwerthoedd, o drachwant i gydweithredu. Galwodd sylw at y cylch o dlodi, diffyg hawliau dynol, masnachu mewn arfau, gwrthdaro a thrais sy'n digwydd mewn cymaint o rannau o'r byd heddiw. Galwodd sylw hefyd at ran yr UD a chenedl-wladwriaethau grymus eraill, y fasnach arfau a chorfforaethau byd-eang yn y gwrthdrawiadau hyn, a chondemniodd fomio Iwgoslafia gan NATO. Ag yntau'n ddyn tawel mewn siwt smart, anerchodd lond neuadd o bobl ddosbarth-canol, lewyrchus eu byd - roedd llawer o wleidyddion yn bresennol, ond siaradodd â nhw yn iaith y gweithredydd a'r ymgyrchydd. Galwodd arnom oll i weithio dros heddwch. Gobeithio y clywodd y gynulleidfa ef.

*Jill Stallard*

# TRASIEDI: CAMGYMERIADAU NATO

**Yr Athro Ken Booth**

Mae Kosovo, ers deng mlynedd (o leiaf) wedi bod ar ymyl dibyn trychineb ddynol. Ceisiodd llu o arbenigwyr ar y rhanbarth alw sylw at y peryglon. Cawsai trefn debyg iawn i apartheid ei sefydlu yno gan Weriniaeth Ffederal Iwgoslafia (dan fawd Serbia, i bob diben) o dan Slobodan Milosevic wedi 1989, ac mewn ymateb i hynny, ceisiwyd cynnal ymgyrch o wrthsafiad di-drais dan arweiniad dewis Lywydd Albaniaid Kosovo, Ibrahim Rugova.

## Edrych ymaith wnaeth y Gorllewin

Ond roedd sylw'r Gorllewin ar bethau eraill, yn enwedig y sefyllfa yn Bosnia, ac yn ystod Trafodaethau Dayton ym 1995, ac yn y Cytundebau wedi hynny, anwybyddwyd Kosovo. Wrth i'r gormes ar y Kosovariaid barhau a gwaethygu, ac wrth i'r Gorllewin barhau i edrych ymaith, symudodd cymdeithas Kosovo o weithredu di-drais i gefnogi brawychwyr Byddin Ryddid Kosovo (y KLA), ac o safle o arddel ymreolaeth o fewn Gweriniaeth Ffederal Iwgoslafia i geisio annibyniaeth lwyr. Yn ystod y blynyddoedd hyn, roedd syniadau prif bartneriaid NATO am ddiogelwch wedi eu hoelio ar wladweinyddiaeth draddodiadol, gyda'i hen fformiwla'n seiliedig ar sofraniaeth gwladwriaethau, gweithredu drwy bwer milwrol a gwleidyddiaeth y statws cwo. Roedd digon o gyfle i weithredu technegau atal gwrthdaro: gellid fod wedi rhoi mwy o gydnabyddiaeth a chefnogaeth i ddull Rugova o fynd ati; gellid fod wedi helpu grwpiau a wrthwynebai Milosevic yn Beograd; gellid fod wedi rhoi llawer mwy o adnoddau i'r OSCE i helpu i gefnogi a monitro hawliau




lleiafrifol; gellid fod wedi rhoi sefyllfa Kosova yn uchel ar agenda Dayton; gellid fod wedi mentro ar gynllun sefydlogi cynhwysfawr ar gyfer y Balcanau, gyda chefnogaeth adnoddau economaidd sylweddol (a fyddai, yn ôl pob tebyg, wedi bod yn llai na'r bil yn y man am y rhyfel a'i gostau tymor-hir), a gellid fod wedi ymgynghori gyda'r Rwsiaid, manteisio arnynt a'u cynnwys yn y broses o sefydlogi'r Balcanau yn llawn, ac o'r cychwyn cyntaf.

## Methu sicrhau diogelwch cyffredinol

Roedd y ddrwgdybiaeth a ddatblygodd yn y berthynas â Rwsia - gwlad yr oedd ei chydweithrediad o bwys hanfodol yn y pen draw i sicrhau cytundeb i ddod â'r rhyfel i ben ym mis Mehefin 1999, ac i unrhyw obaith o gael ffoaduriaid Kosovo yn ôl i'w cartrefi - yn un o fethiannau mawr NATO o ran yr ymrwymiad roedd wedi honni fod ganddo i gyd-ddiogelwch yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Dyma un arall o ganlyniadau negyddol polisi gwallus NATO o ehangu i mewn i ddwyrain Ewrop (mae eraill yn cynnwys rhoi rhwystrau yn ffordd y broses o dynnu arfau niwclear allan o gysylltiadau rhyngwladol). Fel y nododd beirniaid NATO, mae'r gynghrair wedi sôn am sicrhau diogelwch ar y cyd ond wedi gweithredu ar ei liwt ei hun. Yn y modd hwn ac mewn ffyrdd eraill, gallai hanes diweddar y Balcanau fod wedi bod yn wahanol iawn pe bai agwedd prif bwerau NATO wedi bod yn llai cul ac yn llai traddodiadol ei naws ac, yn hytrach, yn fwy penderfynol o geisio diogelwch ar y cyd ac atal gwrthdaro. Ni fyddai'r olaf o'r rhain, wrth gwrs, wedi gwasanaethu buddiannau'r busnesau arfau sydd mor bwysig yn y rhan fwyaf o economïau diwydiannol.

## Creodd gormes o'r awyr yr amodau ar gyfer trychineb ddynol

Os cyfyd sefyllfaoedd yn y dyfodol pan fydd camweddau llywodraeth yn erbyn hawliau dynol ei phoblogaeth ei hun mor erchyll nes y penderfynir fod yn rhaid wrth 'ryfel dyngarol', ni all y modd y rhedwyd ymgyrch 1999 ennyn unrhyw hyder ynom yn y rheini a oedd yn gyfrifol amdani. Mae'r rhestr o gamgymeriadau y gellid fod wedi eu hosgoi yn echrydus. Mae'n cynnwys: dysgu'r gwersi anghywir o'r bomio ar derfyn yr ymladd yn Bosnia ym 1995; y gred - y daeth yn gywilyddus a thrychinebus o amlwg ei bod yn anghywir yn wythnos gyntaf yr ymgyrch - y gallai gormes o'r awyr ynddo'i hun atal trychineb ddynol yn Kosovo (yn lle hynny, creodd amgylchiadau lle gallai'r glanhau ethnig yn Kosovo ddigwydd â mwy byth o ffyrnigrwydd); y ffaith y na sylweddolwyd na fyddai llywodraeth Milosevic a'r lluoedd o dan ei rheolaeth yn ildio'n hawdd; y ffaith y cam-amcangyfrifwyd yn ddybryd faint o awyrennau ac ymosodiadau y byddai eu hangen, a pha mor hir fyddai'r ymgyrch yn parhau, o ganlyniad i hynny; y ffaith y gwrthodwyd ystyried posibilrwydd ymosodiad ar dir o'r cychwyn cyntaf, bwnglera strategol (er ei bod hi'n debyg mai'r bygythiad fod llywodraeth yr UD yn cymryd yn posibilrwydd hwn o ddifrif yn y pen draw a barodd i Milosevic i gytuno i dynnu ei fyddin yn ôl o Kosovo); y modd cwbl naïf y mentrwyd hygrededd NATO o'r cychwyn cyntaf, a lesteiriodd weithredu diplomatig ac a olygodd fod a wnelo'r rhyfel fwyfwy a dyfodol NATO yn hytrach nag achub pobl; y difrod 'cyfochrog', a oedd yn drychineb o ran pobl ac o ran cysylltiadau cyhoeddus, ac a oedd yn ganlyniad gwybodaeth wallus; y camau anghyfrifol i ehangu'r rhestr o dargedau wrth i NATO ddechrau anobeithio; a dulliau gor-ofalus o weithredu er mwyn lleihau'r peryglon i beilotiaid NATO ei hun i'r graddau mae'n debyg y byddai llawer ohonynt hwythau wedi ei chael hi'n anodd ei dderbyn; a'r ymosodiad ar sail-strwythur Serbia, a beryglodd fywydau a bywoliaeth niferoedd cynyddol o Serbiaid diniwed, ac a dorrodd galon y cannoedd o filoedd a wrthwynebai Milosevic a'u taro'n fud (a thrwy hynny helpu i greu trychineb ddynol yn Serbia, a derbyn fod honno'n un lawer llai nag yn Kosovo). Yn yr holl ffyrdd hyn, roedd hwn yn rhyfel lle na chydgysylltwyd amcanion gwleidyddol a gweithredu milwrol mewn modd soffistigedig.


### "Gwneud rhywbeth"

Amser a ddengys a fydd arweinwyr NATO wedi dysgu'r gwersi iawn o'r camgymeriadau difrifol hyn. Ond yn bwysicach eto, a ddysgan nhw na all "rhyfel dyngarol", ac eithrio yn yr achosion mwyaf eithafol, fod yn ddim mwy na gwrth-ddywediad. Profodd y rhyfel hwn eto yr hen air fod y rheini sy'n ymladd dreigiau'n troi'n ddreigiau eu hunain. Mabwysiadodd llywodraeth Blair, er enghraifft, safbwyntiau eithafol mewn byr amser, fel y gwaeth rhai o'r cyfryngau. Aeth iaith ofalus, dadansoddi hanesyddol soffistigedig, ac unrhyw gydnabyddiaeth o gymhlethdod gwleidyddol ar ddisberod. Cyn hir, roedd 'Y Serbiaid' yn ellyllon, a defnyddiwyd y gair 'hil-laddiad' yn gwbl anwahaniaethol. Yn wyneb anfadrwydd camweddau Milosevic yn erbyn hawliau dynol, gellid deall yr awydd i wneud rhywbeth, ond gwyrdrowyd yr awydd moesol yn fomio er mwyn gwneud i ni deimlo'n well. Y 'rhywbeth' cyntaf y dylech ei wneud, wrth wynebu awydd moesol, yw osgoi gwneud dim fydd yn gwneud pethau'n waeth. Mae'n anodd credu i'r bomio arbed un bywyd yn Kosovo - lle mae digon o reswm i gredu iddo sicrhau llawer mwy o farwolaethau yn y Balcanau. (Nid 'beio' NATO am y 'glanhau ethnig' o safbwynt ei 'achosi' mo hyn, dim ond dweud fod ei ddull o geisio ei atal wedi bod yn wrthgynhyrchiol). Methodd y bomio atal y drychineb ddynol, ond roedd yn falm ar gydwybod rhai o arweinyddion y Gorllewin. Aeth y reddf ddyngarol yn aberth i grwsâd moesol.

### Diffyg ymddiriedaeth cynyddol

Mae'n siwr y bydd y gymysgedd o dra-arglwyddiaeth dechnolegol NATO, a'i ewyllys i drechu llywodraeth y penderfynodd ei bod yn esgymun, yn destun pryder mawr i'r rheini sy'n credu efallai eu bod nhw yn yr un categori. Byddan nhw'n dechrau gofyn tybed a fyddai NATO wedi ymddwyn yn yr un ffordd tuag at Milosevic pe bai gan Serbia arfau niwclear. Os penderfynant, yn ddigon rhesymol, mai 'na' yw'r ateb i hynny, yna gallai Kosovo fod yn sbardun peryglus iawn i ledaeniad arfau niwclear. At hynny, arweiniodd argyhoeddiad cynghreiriaid NATO fod ganddyn nhw'r hawl i weithredu fel barnwr, rheithgor a dienyddiwr yng ngwrthdrawiadau pobl eraill at anwybyddu pwerau eraill, ac, o ganlyniad, gallai hynny fod wedi creu rhaniadau difrifol yng ngwleidyddiaeth y byd. Mae'n llawer rhy fuan i son am ryfel oer newydd, ond dyw hi ddim yn




rhy fuan i feddwl am lethrau llithrig, ac yn y cyswllt hwn, rhaid nodi fod Rwsia, Tsieina ac India oll wedi eu gelyniaethu gan bolisi NATO ac wedi ei feirniadu yn y Cyngor Diogelwch. Bydd y diffyg ymddiriedaeth a ddatblygodd yn cymhlethu cysylltiadau rhyngwladol yn fawr iawn yn y dyfodol, bydd yn lleihau'r posibilrwydd o gydweithredu ar broblemau diogelwch rhanbarthol, a gallai'n hawdd iawn annog y tri phwer i ddefnyddio unochredd NATO fel cynsail pan fyddan nhw am anwybyddu'r Cenhedloedd Unedig am eu bod yn teimlo fod cyfiawnder o'u plaid - neu bod bygythiad i'w buddiannau - yn eu rhannau nhw o'r byd.

### Negydu heddwch dan gochl y CU

At ei gilydd cafodd y Cenhedloedd Unedig ryfel gwael iawn, er iddo chwarae rhan fwy amlwg yn y trafodaethau heddwch. Dichon mai'r bygythiad i'r Cenhedloedd Unedig fel barnwr, rheithgor a heddgeidwad cymdeithas ryngwladol fydd un o ganlyniadau gwaethaf y rhyfel o safbwynt y rhagolygon ar gyfer adeiladu mwy o drefn ryngwladol yn negawdau cynnar y ganrif nesaf. Does neb, ac eithrio'r cenedlaetholwyr mwyaf eithafol ymhlith ei gefnogwyr, wedi teimlo dim ond atgasedd at bolisïau Milosevic yn Kosovo. Mae'n amlwg y gellir ei gyfrif ymhlith rheng flaenaf unbeniaid gwaethaf yr oes, er nad yn yr is-grwp llai hwnnw y penderfynodd arweinwyr NATO beidio â'u bomio. Mae safonau deublyg NATO yn y cyswllt hwn yn tanseilio'r ddadl yr ymladdwyd yr ymgyrch hon am resymau dyngarol cwbl anhunanol. Mae'n amlwg y gellid fod wedi ymdrin â sefyllfa Kosovo/Serbia mewn modd gwahanol iawn dros y degawd diwethaf, ac mae'n ddigon posib y gellid fod wedi osgoi'r drasiedi a ddigwyddodd, ac a fydd yn parhau. Chawn ni byth wybod nawr. Dewisiwyd cosbi er mwyn i ni deimlo'n dda yn hytrach nag ymrwymo i atal gwrthdaro, a gwaethygodd hynny'r sefyllfa. Roedd y rhyfel yn llawer caletach i NATO nag a ddychmygodd ei arweinwyr; gallant fod yn sicr y bydd yn llawer iawn mwy anodd ennill yr heddwch.


*Mae Ken Booth yn Athro Gweidyddiaeth Ryngwladol yn yr Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae'n arbenigo ar faterion heddwch a diogelwch rhyngwladol ac mae'n gyn-Gadeirydd y Gymdeithas Astudiaethau Rhyngwladol Brydeinig.*

## Gwrthdystio yn erbyn trais ac o blaid heddwch a chydweithrediad

Er i NATO ddechrau bomio Iwgoslafia ar 24 Mawrth 1999, mae CND Cymru wedi bod wrthi yn trefnu a chefnogi nifer o gyfarfodydd, gwrthdystiadau a gwylnosau ledled Cymru er mwyn dangos i'r llywodraeth ein bod yn gwrthwynebu eu gweithredoedd barbaraidd. Roedd yn amlwg fod problem ddyngarol yn Iwgoslafia ond byddai cefnogi ateb di-drais ar y cyd â'r Mudiad Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop wedi bod yn well na chynyddu'r lefel o drais.

### Roeddem yn gwrthwynebu ar sail yr egwyddorion canlynol:

●Mae tactegau'r bwli gan gynghrair niwclear yn annerbyniol ac yn beryglus.




**" 's dim ots am y gyfraith, bydd ein rôl newydd yn sicrhau'n dyfodol ni! "**

●Mae'r bomio yn tramgwyddo Siarter y Cenhedloedd Unedig yn ogystal â Siarter NATO ei hun.
●Byddai'r bomio'n cynyddu'r dioddefaint dynol a'r niwed amgylcheddol helaeth roedd Iwgoslafia eisoes yn eu profi.

### O ganlyniad i ymgyrch fomio NATO:

●Cynyddodd y llif o ffoaduriaid o Kosovo yn ddramatig.
●Aeth casineb ethnig yn fwy eithafol.
●Llygrwyd rhannau helaeth o Kosovo, gweddill Iwgoslafia a llawer ardal arall yn ne-ddwyrain Ewrop gan wraniwm hesb ymbelydrol a llawer o gemegolion eraill o'r ffrwydron a'r targedau a ddifrodwyd.

### O safbwynt gwleidyddol, o ganlyniad i weithredu NATO:

●Ataliwyd cydweithrediad rhwng Rwsia a'r gymuned ryngwladol i geisio ymdrin â phroblemau ag arfau niwclear sy'n debyg o gael eu hachosi gan 'chwilen y milflwyddiant'.
●Gwnaed gweithredu Cytundebau a arwyddwyd yn rheoli arfau niwclear yn fwy anodd neu hyd yn oed yn amhosib.
●Gwnaed lledaeniad arfau niwclear i wledydd anniwclear yn debycach am fod arnynt ofn tactegau bwli NATO.
●Mae Belarws ac Wcraen wedi gofyn i Rwsia symud arfau niwclear yn ôl i'w gwledydd am eu bod yn drwgdybio NATO.
●Nid yw wedi cynnig ateb a fydd yn caniatáu i bobl Iwgoslafia fyw ynghyd mewn heddwch yn eu cymunedau.

*Rod Stallard*

## Etifeddiaeth y gwrthdaro treisgar yn y Balcanau

Cafodd tystiolaeth fod ymgyrch fomio NATO wedi achosi trychineb amgylcheddol nid yn unig yn Iwgoslafia ond mewn rhan helaeth o dde-ddwyrain Ewrop ei dehongli fel "eco-laddiad" gan y Gweinidog Iwgoslafaidd, Jagos Zelenovic mewn llythyr at Klaus Toepfer, Pennaeth Rhaglen Amgylcheddol y CU. Mae Mr Zelenovic yn galw canlyniadau'r bomio yn "drychineb economaidd, ddyngarol, iechyd ac amgylcheddol". Mae'r niwed a restrir yn y papur-newydd *Le Monde* (26 Mai 1999) yn cynnwys:
●llygredd yn gollwng o ffatrïoedd gafodd eu bomio i wledydd cyfagos, fel yng nghyffiniau Mehedinti a Timosoara, Romania lle mae dail y coed a rhai cnydau wedi gwywo;
●lefelau abnormal o uchel o ddeuocsinau yng ngwlad Groeg;
●18 clwt o olew ar afon Donaw ym Mwlgaria;
●cynnydd mewn metalau trymion a sylffwr deuocsid yn yr awyr ym Mwlgaria;
●cwmwl gwenwynig trwchus dros Pancevo yn Serbia wedi bomio purfa olew, ffatri wrteithiau a gwaith cemegolion yn cynnwys 1,200 tunnell fetrig o fonomerau clorid finyl (VCMs), 1,500 tunnell fetrig o deuglorethelyn, 6,000 tunnell fetrig o soda brwd, ac 800 tunnell fetrig o asid hydroclorig.
●Dywedir fod cyddwsedd VCMs yn yr atmosffer yn fwy na 3,000 y lefel a ganiateir; digwyddiadau tebyg yn Novi Sad lle bomiwyd purfa olew a gwaith cemegolion;
●yn Baric, bomiwyd ffatri ffosgenau (nwyon gwenwynig dros ben). Er mwyn gwneud ffrwydrad yn llai tebygol, gollyngodd rheolwyr y ffatri gymaint o ddeunydd peryglus ag oedd modd i'r awyr ac i'r afon;
●*iolch i'r drefn, ni fomiwyd yr adweithydd niwclear yn y Sefydliad Gwyddorau Niwclear yn fwriadol nac ar ddamwain.

Yn sicr, roedd Wraniwm Hesb (WH) yn llawer o'r taflegrau a ddefnyddiwyd gan NATO yn ystod y bomio. Pam ddefnyddir ef mewn rhyfel, bydd WH yn ffrwydro'n fflamau pan fydd taflegryn yn bwrw targed, a gollwng chwistrelliad o wraniwm. Mae'r chwistrelliad hwn yn gollwng pelydrau ymbelydredd alpha, beta a gamma, gyda hanner oes o 4.5 miliwn o flynyddoedd. Unwaith yr anadlir ef, caiff ei storio yn yr afu, yr arennau, esgyrn neu feinweoedd eraill, gan ymbelydru'r holl feinwe bregus o gwmpas y man hwnnw. Mae'r ffaith i'r fath arfau gael eu defnyddio yn Iwgoslafia yn arwydd o drychineb niwclear fawr nid yn unig i bobl y rhanbarth hwnnw ond, yn y pen draw, i bob creadur byw ar y ddaear. Mae'r radio-nwclidau hyn wedi eu gwasgaru drwy'r wlad y bydd ffoaduriaid Kosovo yn dychwelyd iddi. Er mwyn yr amgylchedd yn unig, dylai arfau dinistr torfol, ac yn wir, rhyfel yn gyffredinol, gael eu gwahardd a dylai bodau dynol gefni ar ei barbareidd-dra.

*Jill Stallard.*

## Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru

Mae'r Urdd wedi danfon ei neges Heddwch ac Ewyllys Da i bedwar ban y byd bob blwyddyn er 1922. Gweledigaeth Gwilym Davies oedd hyn, gwr a weithiodd yn ddiflino dros heddwch a chydweithrediad rhwng cenhedloedd ac a chwaraeodd ran bwysig yn sefydlu'r Cenhedloedd Unedig.
Dyma neges 1999:

**CYMODI**

**Ar eich marciau ...**

Gyda 227 diwrnod ar ôl cyn y mileniwm newydd, ryn ni'n barod am gyfnod newydd byrlymus, yn llawn gobaith.
Ydych chi?
Dewch inni gael troi'n cefnau ar yr holl anghydweld a'r gwrthdaro a fu yn y ganrif hon a phenderfynu mai byd cytun, heb drais yw'r byd i ni.
Ddewch chi i redeg 'da ni?

**Barod? . . .**

Camwn ymlaen yn hyderus. Byddwn yn bositif - dysgwn o'n camgymeriadau, anghofio'n balchderau a chydio dwylo mewn undod. Cymodwn â'n gilydd a dymuno gweld pawb yn ffrindiau, waeth beth fo'n stâd.

*"Iaith cymod a chyfiawnder,*
*Iaith cariad ac nid cledd,*
*Iaith undod rhwng y gwledydd*
*Fydd iaith tragwyddol hedd."*

Ie, 227 diwrnod sydd ar ôl.
Ymunwch â ni, cyn i amser ein pasio.
**DEWCH!**

## Yr UD yn gobeithio defnyddio Rwsia fel tomen wastraff niwclear y byd

Mae cwmni o'r UD (Non-Proliferation Trust Inc.) yn bwriadu danfon tanwydd niwclear hesb i Rwsia i'w storio yno am gyfnod maith. Byddai'r elw o fenter o'r fath (lleiafswm o $4 biliwn) yn dod o wledydd sy am gael gwared o'u problemau tanwydd niwclear hesb. I roi mêl ar y wermod, addawyd y byddai rhan o'r incwm hwn yn mynd tuag at dalu pensiynwyr a phlant amddifad Rwsia. Bwriedir defnyddio hanner yr elw ar raglen i "gefnogi cael gwared o blwtoniwm sydd dros ben drwy ddefnyddio tanwydd MOX".
Byddai pob un o'r pedwar safle a awgrymwyd fel storfa niwclear "difa dwfn" ar gyfer y cynllun hwn yn bygwth moroedd yr Arctig neu afonydd Ob neu Yenitsey yn Rwsia pe bai i'r storfeydd hyn ddechrau gollwng yn y dyfodol agos neu bell. Heb sôn am beryglon cludo deunydd o'r fath o gwmpas y byd, a pherygl anghofio amdano am ei fod ynghudd, byddai cynllun o'r fath yn gwaethygu peryglon lledaeniad niwclear yn sylweddol.
Ar Fehefin 1af, gwrthdystiodd grwpiau Gwyrdd yn Rwsia y tu allan i'r Duma yn Mosgo i brotestio yn erbyn cynlluniau i fewnforio gwastraff niwclear o wledydd eraill.

Ffynhonnell: Bellona/WISE (Gwasanaeth Gwybodaeth Y Byd ar Ynni) a Kalinigrad/WISE

## Cefnogi ailadeiladu cymunedau yn y Balcanau

Yr unig fodd y sefydlir heddwch parhaol yn y Balcanau yw drwy ymdrechion y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnyn nhw, sydd ag ymrwymiad i adeiladu ac ailadeiladu cymunedau cryf ac integreiddiedig. Sefydlwyd Cronfa Mentrau Cymunedol y Balcanau gan bedair menyw i gefnogi grwpiau cymunedol annibynnol, ansectaraidd yn Serbia, Kosovo a gwledydd eraill y rhanbarth. Mae'n gobeithio mynd y tu hwnt i'r argyfwng presennol gan roi'r gefnogaeth mae cymaint o'i hangen i bobl sy'n benderfynol o ailadeiladu eu cymunedau drylliedig a chreu cysylltiadau ar draws rhaniadau ethnig a chrefyddol. Ni fydd yn helpu grwpiau sectaraidd, partisan neu wleidyddol neu grwpiau anoddefgar neu dreisgar.

**heddweithredu:** Am wybodaeth bellach, cysyllter â'r Gronfa, d/o 21 Barbauld Road, Llundain N16 0SD (0171) 249 7337 balkan@fodjh.demon.co.uk

## Sgrifennwch at Mordechai Vanunu, da chi!

Dyw Mordechai Vanunu, a garcharwyd yng Ngharchar Ashkelon, Israel ym 1987 am roi manylion am raglen arfau niwclear Israel i'r *Sunday Times* ddim wedi ei garcharu ar wahân bellach, ond ychydig iawn y caiff ymwneud â charcharorion eraill ac ymwelwyr.
Gwrthodwyd ei gais diweddaraf am barôl, ac mae'n wynebu 7 mlynedd arall yn y carchar. Mae derbyn llythyron o gefnogaeth yn ei helpu i gynnal ei nerth. Er bod llawer o weithredwyr yng Nghymru yn sgrifennu ato'n rheolaidd, gofynnwyd i Gymru, fel rhan o rota i sicrhau fod digon o lythyron a chardiau post yn cyrraedd Ashkelon, i gymell pobl i sgrifennu ato ym mis Gorffennaf a mis Awst eleni. Dwedwyd wrthym, gan fod ei lythyron yn cael eu sensro, y byddai'n ddoeth peidio â chyfeirio at herwgipio nac arfau niwclear.
Mae Mordechai wedi dweud wrthym hefyd y byddai'n falch o dderbyn llyfrau ar hanes y byd o 1780 ymlaen, yn enwedig cyfrolau academaidd. Byddai hefyd yn ddiolchgar am lyfrau ar wleidyddiaeth, arfau niwclear a seicoleg, a chasetiau fideo a sain o ffilmiau, newyddion a cherddoriaeth.
Cyfeiriad Mordechai Vanunu yw Carchar Ashkelon, Ashkelon, Israel.
Mae'r Ymgyrch i Ryddhau Vanunu wedi gofyn i ni sgrifennu at yr awdurdodau yn gofyn am ei ryddhau'n fuan hefyd:
Ezer Weizman, Arlywydd Israel, 3 Hanassi Street, Jerusalem, Israel
Ffacs: 0092 2 566 0445
Dror Zeigerman. Llysgennad Israel, Llysgenhadaeth Israel, 2 Palace Green, Llundain W8 4QB
Cysylltwch â'r Ymgyrch i Ryddhau Vananunu a dros Ddwyrain Canol Di-niwclear, 185 New Kent Road, Llundain SE1 4AC.
Tel. (0171) 378 9324; e-bost: vanunu@innocent.com



## Cynlluniau NATO ar gyfer Ewrop

Mae'r rhyfel yn y Balcanau yn enghraifft bellach o gynllun NATO i ehangu ymhellach i mewn i Ewrop, i ymyrryd ledled y byd, ac i atal gwledydd eraill rhag datblygu arfau dinistr torfol tra'n mynnu ar ei 'hawl' ei hun i wneud hynny.

Rhan o gynllun NATO yw i Undeb Ewropeaidd (UE) â'r gallu i ymladd rhyfel niwclear fynd yn gyfrifol am swyddogaeth NATO yn Ewrop.

Yn ei uwch-gynhadledd ym mis Mehefin, awgrymodd yr UE y dylid cyfuno Undeb Gorllewin Ewrop, sydd o blaid arfau niwclear, â'r UE erbyn diwedd 2000. Mae arweinydd newydd yr UE yn cefnogi hynny, ac Ysgrifennydd Cyffredinol presennol NATO fydd yn arwain polisi milwrol yr UE. Mae Prydain yn arwain y polisïau hyn fel y gwnaeth gyda rhyfel y Balcanau, gyda chefnogaeth i'r bomio gan lywodraethau pedair gwlad niwtral yr UE.

Y newyddion da yw ei bod yn bosibl fod NATO wedi gorestyn y tro yma - efallai y bydd y ffaith iddo fethu 'ennill' yn gyflym ac yn rhwydd yn ffrwyno rhywfaint ar ei gynlluniau. Efallai fod y rhyfel wedi troi dinasyddion gwledydd niwtral (yn hytrach na'u llywodraethau) yn erbyn y syniad o fod yn aelodau o NATO. Mae'r mwyafrif helaeth o Ewropeaid am weld Ewrop ddi-niwclear. Dylai'n hymgyrch ni anelu at feithrin a medi cefnogaeth pobl gyffredin, a dad-wneud cynlluniau NATO yn y broses. Roedd yr etholiadau Ewropeaidd yn fan cychwyn yn hyn o beth.




*Paul Hawkes*

## Y Pagoda Heddwch yn Comiso yn Sisilia

Y gwersyll heddwch y tu allan i wersyll Taflegrau Cruise Americanaidd Comiso, yn ne Sisilia, oedd un o'r rhai caletaf yn Ewrop. Roedd creulondeb yr heddlu yn llawer gwaeth nag unrhyw beth a brofwyd gennym ni yng ngwledydd Prydain. Fodd bynnag, roedd y protestwyr yno yn benderfynol ac fe ddenon nhw gefnogaeth ryngwladol. Un o'r cefnogwyr praffaf oedd y Parch. Gyosho Morishita, mynach Bwdaidd a phererin heddwch a ddaeth i Sisilia gyntaf ym 1982. Arhosodd ger llaw'r gwersyll yng nghartref grwp o heddychwyr oedd yn cefnogi'r gwersyll heddwch. Pan gaewyd y gwersyll milwrol o'r diwedd, arhosodd yn yr ardal a phenderfynodd adeiladu pagoda heddwch yn edrych allan dros y safle fel cofeb barhaol i'r hyn y llwyddwyd ei wneud yno. Dechreuwyd ei adeiladu ym 1996 ar dir a roddwyd gan ffermwr lleol ac agorwyd y pagoda mewn gwyl ym mis Mai 1998. Mae Gyosho Morishita yn dal i fyw yno ac mae nawr yn aros am drwydded i adeiladu teml ar y safle.

*Madeline Gray*

## Pobl obeithiol yng Nghynhadledd Heddwch yr Hâg 1999

*Sut all grym y gyfraith ddisodli cyfraith grym?*

Cynhaliwyd Cynhaledd Heddwch ysbrydoledig yr Hâg ym mis Mai mewn adeilad ar draws y ffordd i'r llys lle gwrandawir ar achosion y rheini a gyhuddwyd o droseddau rhyfel yn y Balcanau. Denodd y gynhadledd ddinasyddion hon 8,000 o gynrychiolwyr o bedwar ban y byd. Nod y cynulliad anghyffredin hwn oedd, yng ngeiriau'r enillydd Gwobr Nobel, Joseph Rotblat, "i ddadfgyfreithloni rhyfel". Anerchwyd y cyfarfod gan nifer o'n ffrindiau yn y mudiad heddwch rhyngwladol, yn cynnwys yr Archesgob Desmond Tutu a ddwedodd wrth y cynadleddwyr: "os gallodd y byd ddileu caethwasiaeth, ac os gallwyd dwyn apartheid i ben yn Ne Affrica, pan na ddylem ni dderbyn yr her ehangach o adeiladu'r strwythurau a fyddai'n bwrw rhyfel i ebargofiant?" Pwysleisiodd Kofi Annan bwysigrwydd ymadrodd agoriadol Siarter y CU: "Rydym ni, bobloedd ..." Pwysleisiodd fod yn rhaid i'r byd ddysgu ddisodli cyfraith grym a gosod grym y gyfraith yn ei lle, ac mai'n gorchwyl ni yw nid amddiffyn anrhydedd y meirwon ond gwneud bywyd yn haws ac yn fwy goddefadwy i'r byw.

Cyhoeddwyd rhai cynigion ymarferol o dan y teitl "Agenda'r Hâg am Heddwch a Chyfiawnder ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain". Mae'r syniadau'n amrywio o gychwyn addysg heddwch ar bob lefel i'r ymgyrch i negydu a gweithredu côd ymddygiad cynhwysfawr i reoli allforio pob arf confensiynol; o systemau sylfaenol rhybudd cynnar ac ymateb dan reolaeth y CU i ddechrau negydu cytundeb rhyngwladol â'r nod o ddileu arfau niwclear.

Diolch o galon i Bruce Kent.

Mae copïau o "Agenda'r Hâg am Heddwch a Chyfiawnder ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain" ar gael - cysyllter â Jill Stallard (01550) 750260.



*Dathlu Genedigaeth a Goleuad y Bwda yn y Pagoda Heddwch, Comiso ar yr 11 Ebrill 1999. Ffoto: Rachel*

Carai Gyosho Morishita a'r gymuned Fwdaidd yn Sisilia groesawu cefnogwyr o Gymru i ymweld â'r pagoda heddwch. Am fanylion, cysyllter â Madeleine Gray. Gellir cysylltu â Gyosho Morishita y rhan fwyaf o nosweithiau ar 0039 932 721282.

## Ty'r Arglwyddi am i wirfoddolwyr dderbyn gwastraff ymbelydrol 'diogel'

**Mae Adroddiad Pwyllgor Dethol Ty'r Arglwyddi ar Wastraff Ymbelydrol (Papur TA rhif 41, Mawrth 1999) yn gwneud dau argymhelliad allweddol ar ffurfio polisïau:**

"Dylai'r Llywodraeth ddatblygu polisi cwbl gynhwysfawr ar gyfer rheoli pob gwastraff niwclear yn y tymor hir.

"Dylai'r Llywodraeth gyhoeddi Papur Gwyrdd sydd yn dweud beth yw'r broblem, yn cynnig atebion posibl a'r prif ffyrdd o weithredu'r polisi hwnnw, yn cynnwys, ar gyfer storfeydd dwfn, y broses o ddethol safleoedd."

Ar bwnc claddu dwfn, mae'r adroddiad yn honni fod y rhan fwyaf o wyddonwyr yn meddwl eu bod yn gwybod digon i fynd ati o'r newydd i ddethol safleoedd: mewn geiriau eraill, y derbynir bellach fod claddu dwfn yn ddiogel. Mae Ty'r Arglwyddi'n awgrymu y dylid sefydlu corff newydd i oruchwylio gweithredu'r polisi, sef "Comisiwn Rheoli Gwastraff Niwclear" y tu allan i lywodraeth bob-dydd. Comisiwn o'r fath fyddai'n gyfrifol am ymgynghori ar bolisi cynhwysfawr.

"Os ... cytunir i fynd ati gam wrth gam â'r dull daearegol o gael gwared o wastraff, dylid sefydlu corff newydd arall â'r awdurdod i ddylunio, adeiladu, gweithredu'r storfa/storfeydd ac, yn y man, eu cau. Dylai'r "Cwmni Cael Gwared o Wastraff Ymbelydrol" hwn fod yn gorff yn perthyn i'r diwydiant niwclear, a byddai arno angen cymeradwyaeth y Comisiwn ar gyfer ei raglen waith."


Câi Nirex ei ddisodli wedyn gan y Comisiwn a'r Cwmni, a rhoddid pwer statudol newydd i Asiantaeth yr Amgylchedd dros storio gwastraff ar safloedd niwclear.

### Claddu Dwfn - Unrhyw Wirfoddolwyr?

A bwrw y cadarnheir y polisi o gladdu dwfn, mae'r adroddiad yn argymell y canlynol ar broblem losg dewis safleoedd:

"Dylai'r broses o ddethol safle (neu safleoedd) claddu fod yn agored ac yn eglur, a dylai gynnwys y Senedd a'r llywodraeth. Dylai'r Comisiwn oruchwylio detholiad y Cwmni o ddewis safle neu safleoedd. Dylai dewis y Cwmni o safle fod yn destun dadl Seneddol a dylid ei archwilio mewn ymchwiliad cyhoeddus. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu'n derfynol."

Byddai'r Comisiwn yn gwneud astudiaethau desg i lunio "rhestr hir" o 15-20 safle a allai fod yn addas, gan ddefnyddio meini prawf daearegol a hydro-ddaearegol: llunio rhestr fer o safleoedd y gellid gwneud ymchwiliad maes iddynt, yn seiliedig ar werthuso mwy manwl; a llunio rhestr derfynol o safloedd i wneud ymchwiliad maes iddynt drwy ymgynghori neu ddefnyddio'r dull "cymuned wirfoddol" o fynd ati. Ni allai'r gymuned leol oedd wedi gwirfoddoli dynnu'r safle yn ôl wedi i'r ymchwiliadau maes gychwyn. Cynigid iawndal i linaru'r malltod a ddeilliai o enwi safleoedd ar y rhestr fer.




**" 'ti eisiau blasu hwn ?"**

### Plwtoniwm - cadw peth, gwastraff yw'r gweddill

"... dylai'r llywodraeth ddatblygu polisi clir ar gyfer rheoli'r stoc o blwtoniwm a wahanwyd. Ein barn ni yw y dylai hwn fod yn bolisi o gynnal stoc strategol leiafsymol, a datgan mai gwastraff yw'r gweddiill."

Byddai ailbrosesu wedyn yn gwneud dim mwy nag ychwanegu at y pentwr o 'wastraff plwtoniwm'. Does dim ymgais i egluro rhesymeg parhau i ailbrosesu.

### Gwastraff lefel-isel - claddu'n annerbyniol?

"Dylid cynllunio i sefydlu cyfleusterau claddu gwastraff lefel-isel newydd i agor cyn fod Drigg yn cau. Dylai'r llywodraeth ystyried dewisiadau amgen yn hytrach na chladdu gwastraff lefel-isel llai ymbelydrol a chynhyrchu polisi cenedlaethol a dderbynnir gan bawb."

### Meddai Cynghrair Wrth-niwclear Cymru (CWNC):

Does dim clem ganddyn nhw. Yn ei ddadleuon ger bron y Pwyllgor, nododd CWNC ffolineb anwybyddu gwersi'r 19 mlynedd diwethaf: nad yw cymunedau ar ynys fechan orlawn yn mynd i dderbyn unrhyw gynllun sy'n golygu peidio â bod â rheolaeth dros wastraff niwclear. Efallai mai'r hyn ddylai Senedd yr Alban a Chynulliad Cymru ei wneud gyntaf oll yw canolbwyntio meddwl Whitehall drwy ddeddfu na chaniateir cael gwared o wastraff ymbelydrol yn yr Alban a Chymru.

*Hugh Richards CWNC*

## Diarfogi Niwclear - wedi mynd i'r gwellt?

Mae Cysyniad Strategol newydd NATO wedi methu lleihau'r pwyslais gwleidyddol a milwrol ar arfau niwclear o fewn y Gynghrair. Yn ôl NATO, mae arfau niwclear 'yn dal yn hanfodol i gadw'r heddwch'.

Fel consesiwn bach i'r gwledydd hynny oedd am fwy o bwyslais ar ddiarfogi niwclear, bwriedir paratoi adroddiad eleni ar sut y gall NATO 'ystyried posibiliadau mesurau cynyddu hyder a diogelwch, gwireddu, atal lledaenu a rheolaeth ar arfau a diarfogi', Bydd y broses ddiarfogi niwclear ryngwladol yn cael ei llyffetheirio ymhellach gan y ffaith fod NATO yn parhau i gredu fod arfau niwclear yn dal i fod ' yn hanfodol i gadw'r heddwch'.

Y prif faen tramgwydd ar y foment yw diffyg ymrwymiad y gwledydd hynny sy'n berchen ar arfau niwclear i hyd yn oed ddechrau trafod sut y gellir, ryw ddydd, creu byd yn rhydd o arfau niwclear.

Mae proses y Trafodaethau Lleihau Arfau Strategol (START) yn dechrau ymddatod, mae Cynhadledd y CU ar Ddiarfogi yn methu cytuno ar ddim, daeth cyfarfod Adolygu'r Cytundeb Atal Lledaenu Niwclear i ben mewn annhrefn ym mis Mai, prin yw'r rhagolygon am weithredu'r Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr, mae'r ras arfau rhwng India a Phakistan yn parhau'n ddi-ball, ac mae cytundeb i reoli defnyddiau ymholltol ymhell iawn i ffwrdd. Mae'r Unol Daleithau'n ceisio ochr-gamu'r Cytundeb Taflegrau Balistig Rhyngwladol, sy'n cynddeiriogi Rwsia, ac mae cysylltiadau rhwng Rwsia, yr UD a Tsieina braidd yn oeraidd.

Nes i'r rheini sy'n berchen arfau niwclear ddechrau siarad a dechrau ymddwyn mewn ffordd sy'n awgrymu bwriad o ddileu arfau niwclear, yn hytrach na mynnu ceisio eu cadw am gyfnod amhenodol, does dim gobaith bwrw ymlaen mewn modd ystyrlon ac arwyddocaol â'r broses o ddiarfogi niwclear rhyngwladol. Mae cysyniad strategol newydd NATO yn hoelen arall yn arch diarfogi niwclear.

Mae'r llygedyd o oleuni a ymddangosodd ar ddiwedd y Rhyfel Oer y gellid sicrhau byd yn rhydd o arfau niwclear wedi ei ddiffodd bellach. Does fawr ddim gobaith y gellir ei ailgynnau heb i'r gwledydd hynny sy'n dal yn berchen ar fwyafswm y 36,000 o arfau niwclear sy'n dal i fod yn y byd weithredu'n bositif ar fyrder.

Gosodwyd llu o syniadau a chynigion ger bron ac mae'n hen bryd gweithredu rhai ohonyn nhw cyn ei bod hi'n rhy hwyr.

*William Peden Gweithiwr Seneddol CND*

## Tân ar long niwclear ger glannau Cymru: lledaenu'r pla

Mae Jackie Lawrence, Aelod Seneddol Preseli, wedi galw am gyhoeddi gwybodaeth am faint o ddeunydd niwclear sy'n cael ei gludo ar longau ger glannau Cymru. Roedd hynny yn dilyn y tân diweddar ar fwrdd llong, y City of Manchester, oedd yn cario gwastraff niwclear o Lerpwl i Sbaen. Diffoddwyd y tân yn y stafell injan, a llwyddodd y llong i angori ym mhorthladd Aberdaugleddau. Fel yr adroddwyd yn Heddwch cyn hyn, mae llwythi o danwydd MOX (sy'n cynnwys wraniwm a phlwtoniwm) ar gyfer adweithyddion niwclear yn mynd i gael eu cludo o Sellafield i Siapan ar fwrdd llongau arfog BNFL. Mae Adran Egni yr UD wedi cyfaddef fod MOX yn y "categori diogelwch mwyaf sensitif" oherwydd gellid gwahanu plwtoniwm addas i arfau niwclear oddi wrtho yn gymharol gyflym a hawdd". Heb law am beryglon ofnadwy damwain bosibl, mae oblygiadau hynny i ledaeniad arfau niwclear yn amlwg.

**heddweithredu:** Sgrifennwch at eich Aelod Cynulliad, Aelod Seneddol a/neu Gynghorydd lleol yn gofyn am wybodaeth am faint o ddeunydd niwclear sy'n cael ei gludo ar long ar hyd arfordir Cymru, gan grybwyll y tân ar fwrdd y City of Manchester fel enghraifft o beryglon traffig o'r fath. Gofynnwch pa baratoadau a wnaed i ymdrin ag argyfyngau o'r fath.
Pan ofynnodd Llew Smith AS am fanylion cwynion a dderbyniwyd gan y Swyddfa Dramor ynglyn â'r perygl o ledaeniad niwclear a allai ddeillio o ddefnyddio tanwydd MOX plwtoniwm ei sail a'i gludo o fan i fan, dwedwyd wrtho mai'r unig gwyn a dderbyniwyd oedd gan Ganolfan Adnoddau'r Môr Tawel, yn Fiji. Mae hyn yn awgrymu na throsglwyddwyd y llythyrau a sgrifennwyd gennym i adrannau eraill o'r Swyddfa Dramor. Byddem yn argymell, os oes modd, danfon copïau o bob llythyr at unrhyw adran lywodraeth berthnasol.

## A wnaiff y Weinyddiaeth Amddiffyn gyfaddef cost y fasnach arfau?

Mewn adroddiad diweddar (HMSO: ISBN 0 10 220999 5), gwahoddodd y Pwyllgor Dethol ar Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn i ddarparu "asesiad mwy systematig a manwl o gostau llawn a buddiannau allforion amddiffyn i'r DU". Mae'r adroddiad yn dyfynu'r Ganolfan Economeg Amddiffyn ym Mhrifysgol Efrog sy'n amcangyfrif fod buddiannau ariannol allforion arfau i'r economi Brydeinig yn £203 miliwn y flwyddyn, tra bod y cymhorthdal yn costio £431 miliwn, cost net i drethdalwyr o £228 miliwn.

**heddweithredu:** Sgrifennwch at eich AS d/o Ty'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA yn gofyn iddi/iddo bwyso ar y Weinyddiaeth Amddiffyn i gomisiynu asesiad o'r fath yn ddiymdroi a chyhoeddi'r canlyniadau.
Cysylltwch â'r Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau, 11 Goodwin Street, Llundain N4 3HQ (0171) 281 0297, http://www.gn.apc.org/caat

## Ysgrifennydd Cenedlaethol

Mae angen help ar CND Cymru gan aelod neu aelodau i wneud gwaith Ysgrifennydd Cenedlaethol. Mae Jill, ein Hysgrifennydd Cenedlaethol presennol, yn gadael y swydd ym mis Medi. Mae'r swydd ddi-gyflog yn gofyn am ymrwymiad i ddiarfogi niwclear ac i ddatrys gwrthdaro mewn modd di-drais. Mae'r swydd yn cymryd cymaint o amser ac ynni ag y gall y person eu rhoi iddi. Mae'n cynnwys ateb gohebiaeth, ateb cwestiwynau a chyfeirio ymholiadau at y person/mudiad perthnasol. Mae hefyd yn golygu trefnu cyfarfodydd, gwrthdystiadau ac arddangosfeydd. Bydd cyngor a chymorth ar gael gan swyddogion CND Cymru a thelir costau rhesymol.

## Yr NSPCC a'r fasnach arfau

Mae'r NSPCC wedi hawlio nad ydyn nhw'n buddsoddi yn y fasnach arfau. Maen nhw'n dweud fod y cyfranddaliadau sy ganddyn nhw mewn cwmnïau arfau yn ganlyniadau cymynroddion i'r NSPCC. Mae'r elusen yn buddsoddi arian drwy frocer buddsoddi o'r enw Mercury. Mae'r NSPCC yn atal Mercury rhag buddsoddi mewn cwmnïau sy'n defnyddio llafur plant, ond nid yw'n gwahardd cwmnïau sy'n allforio arfau. Ni allai cyfarwyddydd cyllidol yr NSPCC gynnig unrhyw sicrwydd y byddai'n gofyn i Mercury i wahardd cwmnïau arfau.
Mae'r NSPCC wedi derbyn cyfraniadaui o fwy na £533,000 gan y gwneuthurwyr arfau British Aerospace (BAe). Yn eironig, ym 1991, yr NSPCC oedd 'elusen fabwysiedig' BAe. Mae cadeirydd BAe yn aelod anrhydeddus o Gyngor yr NSPCC.
Mae datganiad llawn ar gael gan yr Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau, 11 Goodwin Street, Llundain N4 3HQ (0171) 281 0297, http://www.gn.apc.org/caat

## POEN

'Fe arhoswn yn gytun.'
Bill a Tony
Ar risiau'r Tŷ Gwyn.
Yn cyhoeddi eu polisïau 'gwych'
Tuag at Saddam,
Tuag at yr arfau torf ddinistriol.
Tuag at Irac.

'Mae ein bywyd mewn perygl.'
Bill a Tony
Ar risiau'r Tŷ Gwyn.

...

Ar strydoedd Irac
Mae'r sang a'r sarnedigaeth i'w synhwyro o'r siarad.
Eisoes bu farw dros filiwn o bobl flinderog,
Yn eu plith miloedd o blant bratiog
o glefydau gormesol a newyn.

O GANLYNIAD I DDICHELLDROEON GWLEIDYDDOL

...

Ar strydoedd Irac,
daeth gêmau pleserus y plant i ben.
Roedd y chwarae yn peri poen ac yn eu pruddhau,
Yn dwyn atgofion o'u cyfeillion
caredig, cymwynasgar, annwyl, marw.

O GANLYNIAD I DDICHELLDROEON GWLEIDYDDOL

...

'Ydy'r bomiau a'r milwyr yn barod?'
Bill a Tony ar risiau'r Tŷ Gwyn.

...

Ar strydoedd Irac does dim dianc.
Mae'r problemau parhaus yn achosi artaith.

...

Oes rhaid lladd miliynau, er mwyn difa un dyn?

...

'Mae'n ddewis anodd ond . . . OES.'
Y geiriau ar risiau'r Tŷ Gwyn.

*Siôn Owen*

## Addysg Heddwch

A oes addysgydd ymhlith ein haelodau a fyddai'n fodlon hyrwyddo Addysg Heddwch yng Nghymru ar y cyd â mudiadau heddwch eraill? Byddai cefnogaeth ar gael, a thelid costau rhesymol.

## Storio Trwbl yn Nhrawsfynydd

Trafododd cyfarfod ym Mangor ar Fehefn 8fed yr ymchwiliad cyhoeddus sydd i'w gynnal i 'storfa ddiogel' Trawsfynydd. Daeth llu o fudiadau anllywodraethol i'r cyfarfod, yn cynnwys Cyfeillion y Ddaear, CWNC, CND Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor y Parciau Cenedlaethol, a Chyngor Diogelu Cefn Glwad Cymru, ynghyd â'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear.

Er na chyhoeddwyd dyddiad na chylch awdurdodaeth ar gyfer yr ymchwiliad cyhoeddus, cytunwyd y byddai yr hawl i weld gwybodaeth ar ddiogelwch yn hanfodol, a bod rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ennill ei blwyf drwy sicrhau cyhoeddi'r 'achos diogelwch' a dogfennau cysylltiedig yn eu crynswth.

Hyd yn hyn, mae BNFL wedi gwrthod rhyddhau dogfennau i gefnogi defnyddio'r term 'storfa ddiogel' neu i ddweud beth yw buddiannau honedig oedi datgymalu'r orsaf am 135 mlynedd. Mae'r Swyddfa Gymreig wedi mynnu gwybodaeth ychwanegol ar yr effaith y cynigion ar yr amgylchedd am fod y Datganiad Amgylcheddol mor ddiffygiol.

Rydym yn dibynnu ar y Cynulliad Cenedlaethol i osod cylch awdurdodaeth eang yn cynnwys diogelwch a hawl i edrych ar amserlenni amgen ar gyfer datgymalu adweithyddion Trawsfynydd.

Y prif bwnc, uwch law pob beth arall, yw diogelwch y cyhoedd, nid ein cenhedlaeth ni yn unig ond y chwe chenhedlaeth nesaf o leiaf. Yn wyneb storfa wastraff ymbelydrol *de facto*, mae gan bobl yr hawl i ddisgwyl yr un safonau o 'ddiogelwch goddefol' ag a fyddai mewn grym mewn mannau eraill gyda chyfleusterau a gawsai eu hadeiladu i'r diben hwnnw.

Nid dim ond cyfleusterau storio gwastraff ymbelydrol lefel ganolig wedi ei bacio a'i reoli sydd dan sylw. Bydd yr adweithyddion a gaewyd yn Nhrawsfynydd yn cynnwys llawer iawn o wastraff ymbelydrol mewn ffurf sydd, o bosib, yn ansefydlog a bydd angen cadw systemau pwmpio i weithio.

Dylid sefydlogi pob gwastraff niwclear ar safle Trawsfynydd mewn ffurf sydd yn gorfforol sefydlog ac yn gemegol anadweithiol, a dylid sicrhau bod cyn lleied â phosib o berygl y gallai egni mewnol (Wigner) gynnau gwastraff sydd wedi ei storio. Dylid sicrhau fod y gwastraff a'r deunydd y paciwyd ef ynddo yn ddigon cryf i wrthsefyll traul a pheryglon eraill, a dylid ei fonitro a lle bo angen, ei dynnu allan a'i ailbacio.

Collir unrhyw 'fuddiannau' o oedi cyhyd cyn datgymalu'r adweithyddion os collir y sgiliau i wneud y gwaith yma. Rhai o'r adnoddau mwyaf gwerthfawr wrth ymdrin â'r gorchwyl hwn yw gwybodaeth arbenigol gweithlu Trawsfynydd, a dylid diogelu hynny costied a gosto.

*Hugh Richards*

**heddweithredu:** Helpwch i sicrhau fod yr un safonau diogelwch ag a fynnid gyda storfeydd newydd pwrpasol mewn grym gyda Thrawsfynydd. Pam ddylen ni dderbyn unrhyw beth yn llai na hynny? Sgrifennwch at eich Aelodau Cynulliad yn:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA.

## Hwylio ar Lyn Trawsfynydd


### Dach chi wedi gweld y llyn, nawr darllenwch y daflen

Mae canolfannau croeso yng Nghymru yn awr yn arddangos taflenni'n hysbysebu mwynder "Mordeithiau Pleser Traws", heb son gair am y peryglon. Mae'r rhain yn eich gwahodd i ddysgu am "rai o'r llu straeon a chwedlau gwerin lleol". Un o'r chwedlau rhyfeddol a lliwgar hynny, mae'n siwr, yw'r ffaith ei bod yn hysbys fod radio-nwclidau peryglus dros ben yn llaid y llyn, ac yn y dyfroedd hefyd o bosib, radio-nwclidau a allai, pe bai i rywun eu hanadlu neu eu llyncu, achosi gwhanol fathau o gancr a namau genynnol. Y gwir ddirgelwch yw fod yr awdurdodau niwclear - a Chyngor Gwynedd hefyd, gellid tybio - yn ystyried ei bod hi, er gwaethaf y ffeithiau, yn berffaith ddiogel i ddynion, gwragedd a phlant i hwylio'r llyn a chwarae ynddo neu o'i gwmpas.

**heddweithredu:** Gofynnwch gwestiynau. Does bosib nad yw Llyn Trawsfynydd yn beryglus, yn enwedig i blant a babanod. Sgrifennwch at: Dafydd P. Lewis, Cyfarwyddydd Tai a Diogelwch y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH.


**TEITHIAU PLESER TRAWS**

Ymunwch â ni am daith bleser ar Lyn prydferth Trawsfynydd



***Y Cwch Pleser Cyntaf ar Lyn yng Nghymru***

**TEITHIAU PLESER TRAWS**
**Rhyd y Felin, Trawsfynydd, Gwynedd LL41 4UU**
**Ffôn/Ffacs: 01766 540375**

# Irac: sancsiynau fel arfau dinistr torfol

Sgrifennodd Andrea Needham y canlynol ar ôl dychwelyd o ymweliad ag Irac fel rhan o ddirprwyaeth Lleisiau yn yr Anialwch:

*"Mae gan y llywodraeth ... bob cydymdeimlad â phobl Irac. Mae sancsiynau wedi eu hanelu at lywodraeth Irac, nid atyn nhw." (Y Swyddfa Dramor, Mai 1998)*

*"Mae'n glir mae plant sy'n cario baich trymaf y caledi economaidd cyfredol." (Phillipe Heffinck, Unicef, Bagdad, Tachwedd 1997)*

Dyma ddwy fersiwn o'r sefyllfa yn Irac - fersiwn y llywodraeth Brydeinig, ac eiddo rhywun sydd â phrofiad personol o'r argyfwng. Yn sgîl ymweld ag Irac y mis diwethaf, gallaf ddatgan yn bendant mai fersiwn Unicef yw'r gwirionedd.

Mewn ysbyty yn Basrah, cwrddasom â Nadwa a'i mab Anwar. Yn chwe mis oed, roedd Anwar yn pwyso hanner cymaint â phlentyn normal o'i oed. Roedd i weld yn druenus, yn gorwedd yn llipa ar fatres plastig, ei esgyrn yn ymwthio, heb ddeall beth oedd yn digwydd iddo a'i wyneb â'r olwg grebachlyd "hen wr" sy'n nodweddiadol o blant â marasmws. Dwedodd Nadwa wrthym fod y ddogn fisol o fwyd a roddir i bob dinesydd ond yn para tair wythnos; wedi hynny, dim ond cawl a reis allai hi eu rhoi i Anwar. Roedd ei gwr yn ddiwaith a gyda phump o blant i'w bwydo, fedren nhw ddim fforddio bwyd maethlon.


Emily Johns

Nid yw cyflwr Anwar yn unigryw. Gynt, y broblem faeth fwyaf cyffredin ymhlith plant Irac oedd gorbwysau. Nawr, ar ôl naw mlynedd o sancsiynau'r CU, mae chwarter plant Irac o dan bump yn dioddef o ddiffyg maeth cronig. Mae cyfraddau marwolaeth plant deirgwaith yn fwy, yn ôl y CU. Mae ysbytai'n dadfeilio, mae prinder moddion, ac mae meddygon yn anobeithio.

Nid canlyniad diffyg bwyd a moddion yn unig yw'r argyfwng hwn; mae'n deillio hefyd o'r gwerth $232 biliwn o ddifrod a wnaed i sailstrwythur y wlad yn ystod Rhyfel y Gwlff. Mae niwed i weithfeydd dwr a thrin carthffosiaeth wedi arwain at gynnydd anferth mewn afiechydon a gludir mewn dwr. Dyw faint bynnag o fwyd a moddion ddim yn mynd i wneud plant yn iach cyhyd â'u bod yn dal i yfed dwr wedi ei lygru gan garthffosiaeth.

Sefydlwyd Lleisiau yn yr Anialwch yn yr UD ym 1996 - ffurfiwyd grwp Prydeinig llynedd - mewn ymateb i'r argyfwng hwn, i dorri'r sancsiynau drwy fynd â moddion a chyfarpar meddygol i Irac heb wneud cais am drwyddedau allforio. Mae hon yn drosedd y gellir carcharu rhywun am ei chyflawni. Hyd yn hyn, does neb wedi cael eu herlyn er y bygythiwyd dirwy o £163,000 yn erbyn grwp yr UD am fynd â moddion a theganau i Irac. Gwrthodwn wneud cais am drwyddedau allforio, gan ystyried fod y weithred o dorri'r sancsiynau yn ddatganiad croyw o gydwybod, yn weithred o anufudd-dod sifil yn erbyn cyfundrefn annynol ac anghyfreithlon. Dydyn ni ddim yn derbyn fod gan y llywodraeth Brydeinig hawl i atal ein hymdrechion i helpu pobl Irac, ac ni allwn gydweithredu â'r gyfundrefn sancsiynau - byddai hynny'n ei chyfreithloni.

Credwn fod y llywodraeth Brydeinig, drwy fynnu parhau â sancsiynau, yn uniongyrchol gyfrifol am farwolaeth 4,000 o blant dan 5 bob mis; am y 960,000 o blant sy'n dioddef o ddiffyg maeth; y miliynau a amddifadwyd o'u hawliau dynol sylfaenol i ofal iechyd, dwr glân, tai ac addysg. Fel y dwedodd cyn-Gydgysylltydd Dyngarol y CU dros Irac, Dennis Halliday, wedi iddo ymddiswyddo fel protest yn erbyn yr argyfwng a achoswyd gan sancsiynau: "Rydym yn y broses o ddinistrio cymdeithas gyfan. Mae mor syml a mor frawychus â hynny. Mae'n anghyfreithlon ac yn anfoesol."

Heddweithredu: Am fanylion pellach neu i chwarae rhan, cysylltwch â; Lleisiau yn yr Anialwch y DU, 12 Trinity Road, Llundain N2 8JJ. Tel 0181 444 1605, e-bost: <voices@viwuk.freeserve.co.uk>.

## Torri Sancsiynau drwy'r Post yn Narberth

Ar 29ain Mai, torrodd Dave Rolestone o Efailwen, Sir Gaerfyrddin sancsiynau'r CU yn erbyn Irac drwy bostio moddion i Irac heb wneud cais am drwydded allforio. Gwyddai fod danfon nwyddau i Irac fel hyn yn drosedd y gellir ei chosbi gan hyd at 5 mlynedd o garchar, ond mae'n teimlo'n gryf iawn y dylid gweithredu'n symbolaidd yn y modd hwn. Ar ôl hysbysu'r wasg, dosbarthodd ef a'i gefnogwyr daflenni a phecynnau gwybodaeth yn Narberth ac arddangos placardiau cyn iddo fynd â'r tri pharsel i Swyddfa'r Post. Roedd David Morris ASE gydag ef. Gwrthododd gweithwyr post Narthberth dderbyn y parseli, ond llwyddodd Dave i'w danfon o'r diwedd o swyddfa bost pentref lleol. Gweithredodd pobl yn yr un modd ledled Prydain y diwrnod hwnnw.

Mae sancsiynau'r CU wedi bod mewn grym yn erbyn Irac er mis Awst 1990 ac maent wedi arwain at drychineb ddynol. Mae rhyfel yn dal i gael ei ymladd yn y Gwlff, ac arfau'r Gorllewin yw bomiau a sancsiynau.


**heddweithredu:** Denodd gweithred Dave Rolestone gryn dipyn o sylw yn y cyfryngau gan ennyn trafodaeth am fater oedd wedi cael ei wrthio o'r neilltu gan y rhyfel yn Iwgoslafia. Mae'n gobeithio y gellir cynnal y diddordeb hwn. Dylai unrhywun sydd am weithredu mewn modd tebyg neu gefnogi'r achos yn eu cylch nhw gysylltu â Dave Rolestone: (01994) 419678, neu Paul Abbey (0181) 351 4677.

## Apêl Jean Hutchinson

Gwrandawyd ar achos Jean Hutchinson (o Frynaman a Gwersyll Heddwch Menywod Comin Greenham) yn Llys y Goron, Reading ar y 4ydd a'r 5ed o Fehefin. Roedd Jean yn apelio yn erbyn dedfryd 'euog' gan Lys Ynadon West Berkshire. Ni chawsai ei hamddiffyniad o esgus cyfreithlon a hunan-amddiffyniad am dorri ffens y Sefydliad Arfau Atomig (SAA) ei dderbyn. Roedd wedi amddiffyn ei gweithredoedd ar sail anghyfreithlondeb y system arfau niwclear Trident a chyflwr peryglus y SAA lle cynhyrchir blaenarfau niwclear Trident.

Yn yr achos ym mis Mehefin, galwodd Jean ar bedwar o arbenigwr yn dystion, a siaradodd y rheini'n angerddol i gefnogi ei hachos: Yr Athro Nicholas Grief, ar Gyfraith Ryngwladol; yr Athro Frank Barnaby ar effeithiau defnyddio, a pharatoi i ddefnyddio, Trident; William Peden, CND, ar ddamweiniau niwclear a diffyg mesurau diogelwch yn Aldermaston, a Dr Douglas Holdstock a siaradodd am glystyrau lewcemia o gwmpas Aldermaston a safleoedd niwclear eraill a'r prognosis ar gyfer plant sy'n dioddef o lewcemia. Dwedodd Dr Holdstock nad oes y fath beth â dôs ddiogel o ymbelydredd.

Wrth grynhoi, dwedodd Jean fod ganddi "esgus cyfreithlon" o dan y Ddeddf Niwed Troseddol am mai ei nod oedd gwrthwynebu gweithred anghyfreithlon oedd yn cael ei chyflawni gan y llywodraeth. Cymharodd hynny â thorri ffens o gwmpas gwersyll carchar. Cyfeiriodd ar Gonfensiwn Genefa, Cyfraith Ryngwladol Arferol (y tystiodd yr Athro Grief ei bod yn rhan o gyfraith Lloegr [sic]) a dyfarniad Ty'r Arglwyddi ar estraddodi'r Cadfridog Pinochet.




Ni chyflwynodd Bargyfreithiwr y Goron unrhyw ddadleuon cyfreithiol. Gwrthodwyd yr Apêl ac roedd y costau a'r iawndal yn hallt, cyfanswm o £1,300. Mae Jean, y mae ei gwr yn wael, wedi gwrthod talu ac mae wrthi'n penderfynu beth fydd y cam nesaf.

Mae Trident yn rhan o arfogaeth NATO ac mae'n arf ymosodol (fel y tystiodd Frank Barnaby). Fel y gwelwn dro ar ôl tro, does gan NATO ddim parch at y CU na chyfraith ryngwladol. Does gan y llywodraeth ddim parch at iechyd gweithwyr a phobl leol SAA Aldermaston.

Diolch i'r drefn, mae SAA Llanisien wedi cau (er ei fod wedi gadael gwaddol amgylcheddol angheuol o'i ôl) ond mae Trident yn para i fod yn gymaint o fygythiad i Gymru, yr Alban, Iwerddon a gweddill y byd, ag ydyw i Loegr, prun ai y caiff ei ddefnyddio yn y pen draw ar ryw 'elyn' anffodus neu os bydd llywodraeth Prydain yn ei gadw "rhag ofn", yn groes i gytundebau a chyfreithiau rhyngwladol. *Mary Millington*

**heddweithredu:** I gefnogi Jean, cysylltwch â Gwersyll Heddwch Greenham (gweler Dyddiadur) neu Jill Stallard (01550) 750260

## Hibakusha ac ymgyrchwyr heddwch o Siapan yn dod â'u gobaith i Gymru

Croesawyd ymgyrchwyr a phobl oedd wedi goroesi bomio niwclear Siapan i dde Cymru gan CND Cymru. Roedd eu hymweliad yn cynnwys ymweld â'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Bedwas, derbyniad swyddogol a seremoni gosod torch gydag Arglwydd Faer Caerdydd, a chyfarfod cyhoeddus yn y Deml Heddwch. Dwedodd goroeswyr Hiroshima a Nagasaki wrth y cynulliad yno, er bod 54 mlynedd wedi mynd heibio, fod bron 100,000 o bobl yn dal i fod yn dioddef effeithiau ymbelydredd yn Siapan ei hun. Dim ond pedair oed oedd Tamiko Nishimoto pan ollyngwyd y bom niwclear ar Hiroshima. Siaradodd am erchylltra marwolaeth aelodau ei theulu ac am weld pobl yn llosgi i farwolaeth neu'n boddi ar ôl neidio i mewn i afonydd i osgoi'r tanau neu am fod eu crwyn wedi llosgi gymaint. Gwyliodd Hisako Kimura 11 aelod o'i theulu'n marw o fewn deg diwrnod i'r bomio. Dywedodd "Mae arfau niwclear mor annynol fel na ellir gadael iddynt barhau mewn bodolaeth. Hoffwn gael byw yn ddigon hir i weld diarfogi niwclear byd-eang."

Mynegodd yr ymgyrchwyr o Siapan eu hofn a'i dicter yn wyneb y ddeddfwriaeth Cydweithredu ar Amddiffyn Siapan-UD sy'n cael ei gyrru drwy senedd Siapan. Ei nod yw gorfodi Siapan i gydweithredu gyda'r UD yn ei strategaethau milwrol trawiad-cyntaf. Er fod Cyfansoddiad Siapan yn cynnwys egwyddorion yn erbyn rhyfel ac "annibyniaeth leol", ac er gwaethaf gwrthwynebiad awdurdodau lleol, mae llywodraeth Siapan yn negydu gyda llywodraeth yr UD i ganiatáu mynediad i longau rhyfel yn cario arfau niwclear i'w phorthladdoedd.

**heddweithredu:** Mae Awst 6ed ac Awst 9fed yn coffáu gollwng bomiau niwclear ar Hiroshima a Nagasaki. Cynhelir digwyddiadau blynyddol ledled Cymru. Am wybodaeth o flaen llaw, cysylltwch ag CND Cymru all eich rhoi mewn cysylltiad â threfnwyr digwyddiadau lleol.

Cyhoeddwyd papur yn cynnwys detholiad o ddyfyniadau o'r ymchwiliad mwyaf trwyadl erioed, mae'n debyg, i gwestiwn Hiroshima a Nagasaki (Guy Alperovitz, *The Decision to Use the Atomic Bomb*, Fontana, 1995) gan Pax Legalis. Daw'r dyfyniadau o ffynonellau hanesyddol ac eraill, yn cynnwys dyddiaduron, adroddiadau, negeseuon a godwyd a chyfweliadau'r gyda'r bobl a chwaraeodd fwyaf o ran yn y penderfyniad i ddefnyddio'r bom atomig. Mae'r papur, sef pamffled 8-tudalen o'r enw "Why was the Atomic Bomb Used on Hiroshima and Nagasaki" ar gael yn rhad ac ddim gan Pax Legalis, 3 Llys Fammau, Pantymwyn, Sir y Fflint CH7 5EZ (01352) 740844.
Mudiad annibynnol, di-elw yw Pax Legalis sy'n ymrwymedig i gynnal y gyfraith ddyngarol.

## Dyddiadau Dyddiadur

**31 Gorff - 7 Awst** Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Angen gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith i helpu ym mhabell ymgyrch CND Cymru (Y Babell Heddwch). Digwyddiadau (yn Gymraeg) yn ystod yr wythnos:

**Awst 2il** 11am, Pabell y Cymdeithasau, 'Ai rhyfel yw'r ateb?' Siaradwyr: Myriel Davies CCU, Sian Howys, Cymdeithas y Cymod. Cadeirydd: Y Parch. Emlyn Richards.

**Awst 3ydd** 11am, Y Babell Heddwch. Digwyddiad gyda 10 o blant o Orllewin y Sahara sy'n ymweld â Chymru.

**Awst 4ydd** 11am, Y Babell Heddwch. Protest yn erbyn gwerthu awyrennau milwrol Hawk i Indonesia a gwledydd eraill.

**Awst 6ed** 11am, Y Babell Heddwch. Dydd Hiroshima. Cyfarfod i drafod arfau sy'n cynnwys wraniwm hesb a'u defnydd yn ystod rhyfeloedd y Gwlff ac Iwgoslafia. Siaradwr i'w drefnu.

**Awst 6ed** Dydd Hiroshima ac **Awst 9fed** Dydd Nagasaki: digwyddiadau ledled Cymru i goffáu gollwng bomiau niwclear yn fwriadol ar boblogaethau'r ddwy ddinas. Cysylltwch ag CND Cymru am fanylion.

**Awst 10fed-24ain** Gwersyll Diarfogi Trident Ploughshares 2000, Peaton Wood, Coulport, Yr Alban, gweler isod am gysylltiadau.

**Awst 12fed 1949:** Arwyddo'r Confensiwn ar Ddiogelu Dioddefwyr Rhyfel Genefa.

**Awst 14eg-15fed** Penwythnos o weithredu uniongyrchol di-drais yn erbyn Trident. Trident Ploughshares: 42-46 Bethel Street, Norwich NR2 1NR (01603) 611953. <tp2000@gn.apc.org> http://www.gn.apc.org/tp2000

**Awst 17eg** Bydd Cassini (llong ofod sy'n cario plwtoniwm) yn mynd heibio o fewn 500 milltir i wyneb y ddaear cyn saethu ymaith tuag at y blaned Sadwrn. Gallai damwain neu gamgymeriad olygu bod Cassini'n disgyn i mewn i'r atmosffer a gwasgaru plwtoniwm dros y ddaear. Ymunwch â'r ymgyrch i atal camddefnyddio'r gofod - Stop Cassini, CND Swydd Efrog, 22 Edmund Street, Bradford BD5 0BH.

**Medi 13eg-14eg** Helpwch i Gau'r Archfarchnad Arfau yn ffair Systemau ac Offer Amddiffyn Rhyngwladol (DSEi). Dewch i brotestio yn yr arddangosfa fwyaf erioed o arfau angau, dinistr a rhyfel, a gynhelir ar dir y Weinyddiaeth Amddiffyn dan nawdd ei Hasiantaeth Werthuso ac Ymchwil. Gwerth £1.25 miliwn o arian trethdalwyr sy'n talu amdani ac fe'i hagorir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, George Robertson. Mae'r Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau (CAAT) yn trefnu tridiau o brotestio yn cynnwys gorymdaith a gweithredu uniongyrchol di-drais. Cysylltwch â CAAT yn 11 Goodwin Street, Llundain N4 3HQ (0171) 281 0297, <enquiries@caat.demon.co.uk>.

**Medi 11eg-12fed** Cynhadledd CND Prydeinig Undeb Myfyrwyr Prifysgol Llundain, Mallet Street. Am wybodaeth bellach, cysyllter â Tony Myers: (0171) 700 2393.

**Medi 25ain** Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CND Cymru. 11.00am Ty Cwrdd y Cyfeillion, Temple Street, Llandrindod. Cynigion ac enwebiadau (ar gyfer Cadeirydd, 4 Is-gadeirydd a Thrysorydd) i Jill Stallard erbyn Awst 31ain, os gwelwch yn dda. I gadarnhau manylion, ffoniwch Jill Stallard (01550) 750260.

**Medi 26ain 1924:** Datganiad Hawliau'r Plentyn wedi ei gadarnhau gan Gynghrair y Cenhedloedd - Genefa.

Hydref 3ydd Aberystwyth. Digwyddiad Penblwydd Arbennig Olwen - dyddiad o ddathlu, dosbarthu taflenni, codi arian a mwynhau parti. Cysyllter ag Olwen Davies (01970) 611994.

**Hydref 13eg** Lobi Seneddol i gryfhau'r Cenhedloedd Unedig. Am becyn lobïo neu fwy o wybodaeth, cysylltwch â: Forum for UN Renewal, 3 Whitehall Court, Llundain SW1A 2EL (0171) 930 0272 <unforum@gn.apc.org>. Ar unrhyw adeg: sgrifennwch at eich AS yn pwysleisio y dylai'r llywodraeth ufuddhau'n llawn i Siarter y Cenhedloedd Unedig bob amser.

**Hydref 24ain** Dydd y Cenhedloedd Unedig.

**Tachwedd 13eg-14eg** Penwythnos o weithredu uniongyrchol di-drais yn erbyn Trident. Trident Ploughshares: 42-46 Bethel Street, Norwich NR2 1NR (01603) 611953. <tp2000@gn.apc.org> http://www.gn.apc.org/tp2000

## Carwn ymuno ag CND Cymru

Enw

Cyfeiriad

Côd post

Teleffon

Amgaeaf siec/archeb bost am £ yn daladwy i CND Cymru

Pâr cyflogedig £16; oedolion £12, Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid: £4

Dychweler at: Aelodaeth CND Cymru, 72 Heol Gwyn, Alltwen, Pontardawe SA8 8AN

## CYSYLLTIADAU CND CYMRU

**YSGRIFENNYDD CENEDLAETHOL**
Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri SA20 0LR 01550) 750260

**CADEIRYDD**
David Morris (01792) 643542
**IS-GADEIRYDDION**
**Gogledd Cymru:**
Dave Andrews (01978) 310491
**Y Canolbarth:**
Olwen Davies (01970) 611994
Rod Stallard (01550) 750260
**De Cymru:**
Ray Davies (01222) 889514
**GOLYGYDD HEDDWCH**
Jill Stallard (gweler uchod)

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gymorth i'w gynnig? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND agosaf, da chi, neu'r Ysgrifennydd Cenedlaethol**

**AELODAETH**
Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Alltwen, Pontardawe SA8 8AN (01792) 830330
**AELODAU CYSYLLTIOL**
Rhoda Jones (01766) 762739
**MASNACHU**
Jan Henderson (01792) 830330
**TRYSORYDD**
Jean Bryant, 16 Ty'n y Cymer Close, Y Porth, Y Rhondda CF39 9DE
**GWEITHWRAIG SENEDDOL**
Sarah Isaacs, Bridgend Cottage, Llangamarch LD4 4ED (01591) 620561

**Am gwyno am awyrennau milwrol yn hedfan yn isel? Galwch y Weinyddiaeth Amddiffyn ar (0171) 218 6020**




Heddwch yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).
Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.
Croeso i sylwadau, llythyron ac erthyglau - cysylltwch â'r golygydd, os g., yn dda

Golygydd: Jill Stallard (01550) 750260 (heddwch@fdn.co.uk)
Cyfieithydd: Siân Edwards (sian@derwen.demon.co.uk)
Cysodi ac Argraffu: Redkite Print (01591) 610844 (Redkite@onyxnet.co.uk)
Pacio gan wirfoddolwyr yng Nghaerdydd - i ymuno â'r hapus dyrfa hon, un prynhawn bob rhyw 2-3 mis, cysyllter â Brian Jones (01792) 830330